1. Datganiad Polisi

1.1 Datblygwyd y Polisi Cwynion i sicrhau fod cyflogeion seiliedig mewn ysgolion, rheolwyr a chymdeithion yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol am godi a datrys cwynion unigol a thorfol yn y gweithle.

1.2 Gall unrhyw un sy'n gweithio i ysgol, ar ryw amser, fod â phroblemau neu bryderon am eu gwaith, amodau gwaith neu berthynas gyda chydweithwyr y dymunant eu trafod. Mae hefyd yn amlwg ei bod er budd yr ysgol i ddatrys problemau cyn y gallant waethygu i fod yn anawsterau mawr i bawb sy'n gysylltiedig.

1.3 Cafodd y polisi hwn ei ddatblygu yn unol â Chod Ymarfer 1 ACAS – Gweithdrefnau Disgyblaeth a Chwyno.

Rheoli presenoldeb
Disgyblaeth
Diswyddo am unrhyw reswm arall (e.e. dileu swydd neu ryw reswm sylweddol arall)

Cwynion yn erbyn Llywodraethwyr/Aelodau gan gyflogeion – mae protocolau ar wahân yn eu lle
Cyn gyflogeion
Cwynion a gafodd eu trin yn flaenorol

3. Cwmpas

3.1 Mae'r weithdrefn hon yn cynnwys yr holl gyflogeion sy'n seiliedig mewn ysgol, beth bynnag eu statws neu hyd y gwasanaeth.

3.2 Nid yw'r polisi yn weithredol ar gyfer cwynion yn erbyn aelodau **unigol** o gyrff llywodraethu ysgolion. Os yw cyflogai y Cyngor/Ysgol yn teimlo fod ganddo/ganddi gŵyn yn erbyn aelod neu aelodau corff llywodraethu ysgol, dylent gysylltu â Chlerc y corff llywodraethu drwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. a all roi manylion i'r cyflogai o Bolisi Cwynion yr ysgol. Gallwch hefyd gael enw a manylion cyswllt Clerc y Corff Llywodraethu gan bennaeth yr ysgol a gallech ddymuno rhannu eich pryderon gyda nhw cyn gwneud cwyn.

3.3 Lle gwneir cyfeiriad i Reolwyr, mae hyn yn ymwneud â'r person y mae'r cyflogai yn adrodd iddo/iddi. Dylid nodi y gallai hyn fod eich Rheolwr Busnes, Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr (yn achos Pennaeth yr Ysgol).

3.4 Cwynion Torfol

Bydd y weithdrefn hon hefyd yn weithredol i gwynion torfol, lle mae gan nifer o gyflogeion yr un gŵyn ar yr un pryd. Mae cwyn dorfol yn gŵyn a wneir gan grŵp o gyflogeion (h.y. 2 neu fwy sydd â chwyn unfath) a dylid ei chyflwyno ar ran y grŵp cyflogeion gan "gynrychiolydd priodol" er enghraifft swyddog undeb llafur cydnabyddedig neu aelod staff a enwebwyd. **O fewn y weithdrefn hon byddai unrhyw gyfeiriad at "gyflogai" yn cyfeirio at "cynrychiolydd priodol" ar gyfer diben cwynion torfol.** Bydd y b eiep ⁎ ĕ ɒ

bynnag mae’n rhaid i gyflogeion wybod efallai na fydd yn bosibl gweithredu i

4.12 Dylid rhoi ystyriaeth ar bob cam o'r polisi i addasiadau rhesymol fel sydd angen. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys sicrhau fod gan leoliadau fynediad priodol, y caiff gwybodaeth ysgrifenedig ei rhoi mewn fformat addas, ac yn y blaen.

4.13 Mae cyfryngu yn ddull hyblyg i ddatrys gwrthdaro ac yn gyfle i drafod materion gyda 'thrydydd parti diduedd'. Mae hon yn broses wirfoddol, cyfrinachol ac annibynnol y gellir ei defnyddio ar unrhyw gam o'r broses Gwynion. Mae mwy o ganllawiau ar gyfryngu ar gael yn Atodiad 7.

4.14 Egwyddorion ychwanegol ar gyfer cwynion torfol:

Mae'n rhaid i gwynion torfol a wneir gan grŵp o staff (h.y. 2 neu fwy o aelodau

Dylai **cyflogeion** wneud eu cwyn yn brydlon fel arfer gyda'u rheolwr, gan

erbyn Pennaeth Sdran, yna gall y mater gael ei godi gyda rheolwr priodol neu bennaeth yr ysgol.

7.2 Os yw cyflogai yn cael anhawster i esbonio'r gŵyn oherwydd iaith neu anawsterau eraill, yna cânt eu hannog i geisio cymorth gan gynrychiolydd undeb llafur, cyflogai arall neu Datblygu Sefydliadol.

7.3 Ni fyddai'n arferol i gynrychiolydd undeb llafur neu gydweithiwr fod gyda cyflogai mewn trafodaethau anffurfiol. Fodd bynnag, gyda chytundeb y ddau barti, gellir gofyn iddynt fynychu.

7.4 Gellir codi'r gwŷn ddechreuol, tra'i bod yn y camau anffurfiol, yn llafar neu drwy ysgrifennu at y person perthnasol.

7.5 Yn achos cwyn dorfol lle mae'r staff cysylltiedig yn adrodd i fwy na un rheolwr, gall Datblygu Sefydliadol gydlynu gyda Phennaeth yr Ysgol/Cadeirydd y Llywodraethwyr i ddynodi rheolwr priodol i ddelio gyda'r gŵyn dorfol.

7.6 Mae sôn ym mhob rhan o'r polisi hwn mai Pennaeth yr Ysgol fydd yn rheoli'r broses yn dilyn cwyn a wneir gan gyflogai ysgol. Yn achos cwyn a wneir gan gyflogai yn erbyn pennaeth ysgol, dylai'r gŵyn gael ei chyfeirio at gadeirydd y corff llywodraethu. Gall cadeirydd y llywodraethwyr ofyn i Datblygu Sefydliadol a gwasanaethau llywodraethwyr EAS am gyngor a gall ystyried penodi swyddog

Unrhyw ddatblygiadau dilynol

11.2 Dylid cadw cofnodion yn ffeil bersonol y cyflogai, a dylid eu trin fel bod yn gyfrinachol a'u cadw yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

11.3 Os oes cynrychiolydd undeb llafur neu gydweithiwr fel cydymaith yn cynrychioli cyflogai, gellir anfon copïau o hysbysiadau cyfarfod cwynion, nodiadau cyfarfod, llythyr ymateb ac yn y blaen at yr unigolyn hynny, os nad yw'r cyflogai yn dweud fel arall mewn ysgrifen.

12. Dileu cwyn

12.1 Os yw cyflogai yn penderfynu dileu cwyn ar unrhyw gam yn ystod y weithdrefn, dylai'r person sy'n gwneud y gŵyn hysbysu'r Rheolwr am y rheswm dros y penderfyniad.

12.2 Er y bydd yr ysgol yn y mwyafrif o achosion yn parchu hawliau'r cyflogai i ddileu'r gŵyn, gall fod achosion lle mae'r mater yn effeithio ar y dyletswydd gofal tuag at eraill ac mewn rhai amgylchiadau, gall yr ysgol, yn annibynnol o'r unigolyn sy'n gwneud y gŵyn, benderfynu ymchwilio a gweithredu.

13. Gwybodaeth gyffredinol

13.1 Bydd y polisi hwn ar gael i bob cyflogai mewn fersiynau electronig a hefyd gopi caled ac mae'n ddiwygiad i delerau ac amodau cyflogaeth y cyflogai.

Atodiad 1
Cam 1: Hysbysiad Ysgrifenedig – Ffurflen Adrodd Cwyn

I gael ei llenwi gan y cyflogai.

At:

Gan:

Teitl swydd:

Ysgol:

Rhif ffôn cyswllt:

Rheolwr:

Ydych chi wedi gwneud y gŵyn yma yn anffurfiol? ☐ Do ☐ Na

Os 'Do', nodwch gyda phwy a phryd:

Enw: Dyddiad:

Ydych chi wedi codi hyn gyda'ch cynrychiolydd? ☐ Do ☐ Na

Os 'Do', nodwch gyda phwy:

Ydych chi eisiau i'r cynrychiolydd yma ddod gyda chi i gyfarfodydd? ☐ Ydw ☐ Na

Dymunaf wneud cwyn ffurfiol yn unol â Gweithdrefn Cwynion yr ysgol. Rhowch fanylion llawn y gŵyn yn cynnwys unrhyw ddyddiadau/tystion lle bynnag sydd modd (os oes angen parhewch ar ddalenni ychwanegol o bapur). Dylid hefyd atodi copïau o unrhyw ddogfennau eraill sy'n cyfeirio at y gŵyn.

Pa ganlyniad ydych chi'n edrych amdano i ddatrys eich cwyn? (Rhowch fanylion os gwelwch yn dda):

Llofnod: Dyddiad:

cred. Deallaf y gallai gwneud unrhyw honiadau camau gweithredu disgyblaethol yn fy erbyn. Rwyf hefyd yn cytuno i rannu gwybodaeth gyda fy nghynrychiolydd a enwir.

Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen at Bennaeth yr Ysgol/Pennaeth Llywodraethwyr os gwelwch yn dda.

Dyddiad derbyn gan Bennaeth yr Ysgol/Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Dyddiad anfon copi at Datblygu Sefydliadol:

.

At: Pwyllgor Apêl y Corff Llywodraethu (drwy'r Clerc)

Enw:

Teitl swydd:

Ysgol:

Nid wyf yn fodlon gyda'r penderfyniad a wnaed yng Ngham 2 y Weithdrefn Gwynion Ffurfiol a

Rwy'n apelio ar y seiliau dilynol (parhewch ar dudalen ar wahân os gwelwch yn dda):

Y canlyniad yr wyf yn ceisio ei

Llofnod: Dyddiad:

Amgaewch gopi o'r Ffurflen Adrodd Cwyn Cam 2 gwreiddiol

Dyddiad derbyn gan Bennaeth yr Ysgol/Cadeirydd Llywodraethwyr:

Dyddiad anfon copi at Datblygu Sefydliadol:

Dymunwn gofrestru Cwyn Dorfol ffurfiol yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Gwynion y Cyngor. Rhowch fanylion llawn y gŵyn dorfol yn cynnwys dyddiadau/tystion lle bynnag sydd modd ac yn cynnwys manylion y canlyniad a ddymunir. (Parhewch ar ddalenni ychwanegol o bapur os oes angen).

Gellir hefyd atodi copïau o unrhyw ddogfennau perthnasol.

(Defnyddiwch ddalen parhau os oes angen)

Pa ddatrysiad ydych chi'n ei geisio i ddatrys y gŵyn hon.

gallai gwneud unrhyw honiadau
gweithredu disgyblaethol yn fy erbyn. Rwyf /

cred. Deallaf y
camau

Cwyn dorfol a gafwyd gan

Swyddog Ymchwilio:

Cynrychiolydd Datblygu Sefydliadol:

Dyddiad cofrestru'r gŵyn dorfol:

1.

I gael ei ll *llafur/cynrychiolydd a enwebir.*

At: Pwyllgor Apêl Corff Llywodraethu (drwy'r Clerc)

Gan:

Enw	**Teitl Swydd**	**Ysgol**

Gwybodaeth gefndir:

Proses gyfryngu

Dylid nodi mai canllawiau yn unig yw hyn a bydd y dull a gymerir yn dibynnu ar bob cyfryngydd

Bydd y cyfryngydd a benodir yn esbonio'r broses cyfryngu i gael ei dilyn. Gall cydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod unigol dechreuol gyda'r cyfyngydd. Dim ond y cyflogeion a'r cyfryngydd fydd yn bresennol yn ystod unrhyw sesiwn cyfryngu ar y cyd.

Rhagwelir y bydd mwyafrif achosion cyfryngu yn cynnwys cyfarfod rhwng y ddau barti a gaiff ei annog gan y cyfryngydd fel trafodaeth agored ac onest o'r materion, wedi ei reoli gan y cyfryngydd i sicrhau tegwch ac ymddygiad priodol. Os nad yw'n bosibl i'r ddau barti gymryd rhan mewn sesiwn cyfryngu wyneb-i-wyneb, yna gallai'r cyfryngydd weithredu fel 'cyfrwng' ar gyfer y partïon. Ar gyfer hyn byddai'r ddau barti yn cael eu gwahodd i sesiwn cyfryngau, gan aros mewn ystafelloedd cyfarfod yn yr un adeilad a chael trafodaethau ar wahân gyda'r cyfryngydd am y mater. Byddai'r cyfryngydd wedyn yn helpu pob parti i glywed barn y llall a, lle'n bosibl, yn dynodi meysydd o dir cyffredin fel y gellid dod i gytundeb.

Gall y cyfryngydd ddod ag unrhyw sesiwn neu'r broses gyfryngu i ben:

- Os teimlant nad yw'n ddiogel parhau ar eu cyfer nhw eu hunain neu neu'r ddau gyflogai,
- Os teimlant fod yr anghytundeb rhwng y cyflogeion mor ddwfn fel ei fod tu hwnt i gyfryngu;
- Os teimlant nad yw un neu'r ddau gyflogai yn dymuno datrys yr anghydfod a dod i gytundeb;
- Os daw'r cyfryngydd i wybod am honiadau o gamymddygiad difrifol neu weithgaredd troseddol gan un o'r partïon.

Gall y cyflogeion ddod â chyfryngu i ben ar unrhyw amser yn ystod y broses os teimlant ei bod yn briodol gwneud hynny. Fodd bynnag, os yw cyfryngu yn parhau, yn llwyddiannus ac y daethpwyd i

(Cyfieithiad o ddetholiad o ganllawiau ACAS – Discipline and Grievances at Work)

Beth yw cyfarfod cwynion?

Yn gyffredinol, mae cyfarfod cwynion yn ymwneud ag unrhyw gŵyn a wneir gan gyflogai.

Paratoi ar gyfer y cyfarfod

Dylai rheolwyr:

- drefnu cyfarfod yn brydlon, yn breifat lle na fydd unrhyw ymyrryd e.e. dylai teleffonau gael eu dargyfeirio a throi ffonau symudol i ffwrdd.
- ystyried trefnu i rywun nad yw'n ymwneud â'r achos i gymryd nodiadau yn y cyfarfod
- os cafodd cwynion tebyg eu gwneud o'r blaen, sut y cawsant eu datrys, ac unrhyw weithredu dilynol fu angen. Mae hyn yn galluogi cysondeb mewn triniaeth;
- ystyried os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer person sy'n anabl a/neu eu cydymaith;
- ystyried p'un ai i gynnig cyfryngu annibynnol (Atodiad 7).

Cynnal y cyfarfod

Dylai rheolwyr:

- gofio nad yw cyfarfod cwynion yr un peth â gwrandawiad disgyblaeth, ac mae'n achlysur pan y gall trafodaeth a dialog arwain at ddatrysiad cyfeillgar;
- gwneud cyflwyniadau fel sydd angen;
- gwahodd y cyflogai i ailddatgan eu cwyn a sut yr hoffent ei gweld yn cael datrys;
- rhoi gofal a meddwl i ddatrys cwynion. Nid ydynt fel arfer yn faterion sy'n galw am benderfyniadau yn y fan a'r lle, a gall y cyflogai fod wedi bod yn dal y gŵyn ers amser maith. Dylid derbyn unrhyw 'ollwng stêm' rhesymol os yw cyflogai dan bwysau;
- ystyried gohirio'r cyfarfod os oes angen ymchwilio unrhyw ffeithiau newydd sy'n dod i'r amlwg';
- crynhoi'r prif bwyntiau;

- Sicrhau eich bod yn egluro natur y gŵyn, dadansoddi